| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Cabinet** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 21 Tachwedd 2017 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Bobby Feeley / Phil Gilroy** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Katie Newe / Alison Heaton, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** |
| Teitl: | **CYNLLUNIAU CEFNOGI BYW YN Y GYMUNED ANABLEDD DYSGU SIR DDINBYCH - Estyniadau i gontractau presennol.** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y trefniadau cytundebol i gefnogi unigolion gydag anableddau dysgu mewn gwasanaethau byw â chymorth, gan gynnwys cais bod cytundebau presennol yn gallu cael eu hymestyn yn dibynnu ar yr arfer rhanbarthol i dendro ar draws Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Angen penderfyniad ar ymestyn 18 o Gytundebau Cefnogi Byw yn y Gymuned i unigolion ag Anabledd Dysgu am gyfnod o ddwy flynedd yn unol â Chanllawiau Ariannol y Cyngor (Rheolau'r Weithdrefn Gontractau), yn ddibynnol ar gymeradwyaeth i drefniadau caffael ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Gweler atodiad 1 am fanylion bob cytundeb.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Cabinet yn cymeradwyo estyniadau 2 flynedd ar gyfer pob un o'r gwasanaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae Byw yn y Gymuned wedi'i hen sefydlu yn Sir Ddinbych fel ffordd ddewisol y Cyngor i ddiwallu anghenion pobl ag Anableddau Dysgu nad ydyn nhw bellach yn medru byw gyda'u Gofalwyr. Wrth gaffael gwasanaethau o'r fath rhaid gwneud hynny yn unol â Rheolau Caffael Contractau'r Cyngor a chydymffurfio â chyfraith ddomestig a chyfraith yr UE, yn bennaf Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

4.2 Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi bod yn edrych ar ffyrdd eraill i gaffael Cymorth Byw yn y Gymuned i bobl ag Anableddau Dysgu. Ar hyn o bryd, pan mae cytundebau ar fin dod i ben, y weithdrefn gymeradwy fyddai i ymestyn y cytundeb gyda'r Darparwr presennol yn unol â Rheolau Caffael Contractau'r Cyngor ac yn amodol ar berfformiad boddhaol. Os nad yw hynny'n opsiwn, bydd rhaid gwneud

ymarfer tendro llawn yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a Rheolau Caffael Contractau'r Cyngor.

4.3 Mae cynlluniau comisiynu yn y dyfodol yn cynnwys dau lif gwaith parhaus. Yn lleol rydym yn edrych ar yr opsiwn o gynnig Cyllidebau Cefnogaeth i alluogi Dinasyddion i gaffael cefnogaeth yn uniongyrchol gan eu Darparwr o ddewis, ac yn rhanbarthol mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn gweithio gyda 5 Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ar fin dechrau'r broses o dendro Fframwaith Rhanbarthol i ddarparu Gofal Cartref ymysg Gwasanaethau eraill.

4.4 Bydd tri cham i'r broses dendro. Bydd Cam 1 ar gyfer darparu gofal gartref cyffredinol, bydd Cam 2 ar gyfer darparu gofal gartref uwch a Cham 3 yn darparu gwasanaethau i sefydliadau byw â chymorth. Mae'r contractau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn cyd-fynd â Cham 3 ac yn destun proses Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

4.5 Mae gofyniad i ymestyn y contractau presennol i ganiatáu digon o amser i baratoi i ymrwymo'n llwyr gyda'r farchnad o dan y broses caffael fel y gwelir uchod. Y rheswm dros ymestyn y contractau presennol yn hytrach nag ail-gaffael ar yr amser hwn yw oherwydd y gost o ymgymryd â 2 wahanol dendr ar gyfer yr un darpariaeth Gwasanaeth a'r posibilrwydd cynhenid o ddrysu darparwyr y farchnad. Bydd y Fframwaith arfaethedig yn golygu effeithiolrwydd o ran cyfanswm amser staff ar gyfer tendro gwasanaethau, wrth sicrhau ansawdd a gwerth am arian wrth ddyfarnu contractau.

4.6 Yr amserlen bresennol yn fras ar gyfer Cam 3 yw rhwng 18 mis a 2 flynedd ac ar sail hynny byddai'r Contractau angen cael eu hymestyn am gyfnod o 2 flynedd i 31 Mawrth 2020. Bydd hynny hefyd yn caniatáu ar gyfer unrhyw oedi na ellir ei ragweld. Pe bai'r proses yn cael ei gwblhau yn gynharach byddai modd terfynu contractau yn gynt. Rydym yn hyderus bod proses gadarn a thryloyw yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd o fewn y broses caffael yn y Fframwaith, mae cam 3 yn mynd i fynd allan i'r Farchnad yng nghanol 2019.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau byw â chymorth i unigolion ag anableddau dysgu yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol bresennol bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae cyllid parhaus ar gyfer y cynlluniau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Dim costau ychwanegol ar wahân i'r codiadau angenrheidiol i sicrhau fod darparwyr yn gallu cwrdd â'u hanghenion cyfreithiol mewn perthynas â Chyflog Byw Cenedlaethol ac ati a fydd yn digwydd wrth gytuno i'r estyniadau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Er hynny ynghlwm fel atodiad 2 mae'r Asesiad a gafodd ei gyflwyno gyda'r adroddiad mewn perthynas

i'r Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru i brynu gwasanaethau gofal cartref i oedolion a phlant a theuluoedd gan ddarparwyr allanol. Dyma'r Cytundeb y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae ymgynghori wedi bod ar sail Rhanbarthol, lle bu trafodaeth am gydweithio i ddatblygu proses caffael cyffredinol ar draws y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ymgynghori wedi bod hefyd ymysg staff CSDd, Darparwyr, cynrychiolwyr o Adrannau Cyfreithiol a Chaffael, cydweithwyr o BIPBC, Dinasyddion a'u cynrychiolwyr/adfocadau.

8.2 Rhoddwyd ystyriaeth yn rhanbarthol i redeg ymarfer tendro bychan ar y cyd â chaffael cam un. Er hynny, y consenswS o ran barn oedd y gall hynny arwain at ddyblygu gwaith i swyddogion a darparwyr yn ogystal â chynhyrfu unigolion sydd yn dibynnu ar ddarpariaeth gwasanaeth rheolaidd.

8.3 Fel rhan o'r broses caffael mae unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rhan o'r penderfyniadau ar gyfer darparwyr addas.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n ymddangos yn gall i ymestyn y contractau hyn i gyd-fynd â'r amserlenni ar gyfer fframwaith rhanbarthol newydd. Mae costau'r contractau yn ymrwymiad ariannol sy'n bodoli eisoes.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Byddai'r Awdurdod mewn sefyllfa fregus pe bai'n caffael gwasanaethau gan Ddarparwr heb gytundeb yn ei le.

10.2 Mae risgiau caffael ynghlwm â'r estyniad hwn ond mae'r rhain yn cael eu hysgafnhau trwy gyflwyno hysbysiad Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar wefan Gwerthu i Gymru a'r Porth Proactis a fydd yn cynnwys hysbysiad i'r farchnad bod proses caffael gystadleuol yn cael ei gweithredu. Bydd yn dangos i'r farchnad yr amserlen lle bydd caffael yn cymryd lle ac yn rhoi digon o amser i'r farchnad a darparwyr Gwasanaeth i ymateb yn briodol i wahoddiad i dendro.

10.3 O ran symud ymlaen gyda thendr o fewn amserlen mor gyfyngedig mae risgiau ynghlwm â dewis y cleient a gofal parhaus. Ymgynghori manwl ac ystyrlon angen ei wneud gyda holl ddefnyddwyr y gwasanaethau a'u teuluoedd/adfocadau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r Cynlluniau Byw yn y Gymuned yn cael eu cefnogi gan y Sir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau Cyngor Sir Ddinbych